Dinas a Sir Abertawe

# Cofnodion Cyfarfod Y Cyngor

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 3 Rhagfyr 2020 am 5.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd D W W Thomas (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| C Anderson | C A Holley | P N May |
| P M Black | P R Hood-Williams | H M Morris |
| J E Burtonshaw | B Hopkins | D Phillips |
| M C Child | D H Hopkins | C L Philpott |
| J P Curtice | L James | S Pritchard |
| N J Davies | O G James | A Pugh |
| A M Day | Y V Jardine | J A Raynor |
| P Downing | J W Jones | C Richards |
| C R Doyle | L R Jones | K M Roberts |
| M Durke | M H Jones | B J Rowlands |
| C R Evans | P K Jones | M Sherwood |
| V M Evans | S M Jones | R V Smith |
| W Evans | E J King | A H Stevens |
| E W Fitzgerald | E T Kirchner | R C Stewart |
| R Francis-Davies | M A Langstone | D G Sullivan |
| S J Gallagher | A S Lewis | M Sykes |
| L S Gibbard | M B Lewis | M Thomas |
| F M Gordon | W G Lewis | L G Thomas |
| K M Griffiths | C E Lloyd | W G Thomas |
| J A Hale | P Lloyd | L J Tyler-Lloyd |
| D W Helliwell | I E Mann | G D Walker |
| T J Hennegan | P M Matthews | L V Walton |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr |
| Ben Smith | Prif Swyddog Cyllid / Swyddog Adran 151 |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd(wyr): R D Lewis, P B Smith, G J Tanner a/ac T M White

---

## 26. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Rhoddodd y Prif Swyddog Cyfreithiol gyngor ynghylch y buddiannau personol a rhagfarnol posib y gallai fod gan gynghorwyr a swyddogion ag eitemau ar yr agenda.

Atgoffodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd gynghorwyr a swyddogion y dylid llenwi'r daflen "Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol" os oes gan y cynghorydd/swyddog fudd i'w ddatgan yn unig. Nid oes angen dychwelyd ffurflenni os nad oes unrhyw beth i'w ddatgan. Hysbyswyd cynghorwyr a swyddogion hefyd y dylid datgan unrhyw fudd ar lafar ac yn ysgrifenedig ar y daflen.

Yn unol â darpariaethau'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 27. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r cofnodion canlynol a'u llofnodi fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod cyffredin y cyngor a gynhaliwyd ar 4 Tachwedd 2020.

## 28. Ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yng Nghyfarfod Cyffredinol Diwethaf y Cyngor.

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyfreithiol adroddiad gwybodaeth a oedd yn nodi'r ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yn y cyfarfod cyffredin diwethaf o'r cyngor.

## 29. Cyhoeddiadau'r Aelod Llywyddol.

### 1) Cydymdeimladau

### a) Cyn-gynghorydd Keith Marsh

Mynegodd yr Aelod Llywyddol ei dristwch wrth gyfeirio at farwolaeth ddiweddar y Cyn-gynghorydd Keith E Marsh. Cynrychiolodd y Cyn-gynghorydd Marsh Ward Llandeilo Ferwallt yn Ninas a Sir Abertawe am oddeutu 19 mlynedd rhwng 4 Mehefin 1998 a 4 Mai 2017.

Eisteddodd pawb yn dawel i ddangos cydymdeimlad a pharch.

### 2) Nick Williams – Cyfarwyddwr Addysg

Nododd yr Aelod Llywyddol fod Nick Williams wedi ymddeol fel Cyfarwyddwr Addysg ar unwaith oherwydd afiechyd. Helpodd Nick i wella gwasanaeth addysg yr awdurdod dros nifer o flynyddoedd ac mewn rolau gwahanol. Nododd yr Aelod Llywyddol ei fod yn gobeithio y bydd iechyd Nick yn gwella dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf a dymunodd pob dymuniad gorau iddo ar gyfer y dyfodol.

### 3) Gwobrau Cymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cyhoeddus

Cyhoeddodd yr Aelod Llywyddol fod gan Abertawe gynrychiolaeth dda yng Ngwobrau Gwasanaeth Cymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cyhoeddus, gyda phum maes gwasanaeth wedi cyrraedd y rhestr fer. Mae'r

gwobrau hyn wedi bod yn hynod gystadleuol, gyda thros 100 o sefydliadau'n cymryd rhan o bob rhan o'r DU. Y cyflwyniadau gorau yn unig oedd wedi cyrraedd y rhestr fer ym mhob categori. Roedd yr awdurdod wedi cyrraedd y rhestr fer yn y categorïau canlynol:

- Gwasanaethau Adeiladu ar gyfer Menter y Gweithlu ar gyfer Datblygu'r Fenter Taenellu Mewnol.
- Gwasanaethau Adeiladu ar gyfer Tîm Gorau'r flwyddyn.
- Craig-cefn-parc ar gyfer y Fenter Tai ac Adfywio Gorau.
- Tîm Safonau Masnach y flwyddyn.
- Tîm Diwylliant Chwaraeon a Hamdden y flwyddyn.

Cyhoeddir yr enillwyr ar 16 Rhagfyr 2020. Pob lwc i bawb sy'n cymryd rhan.

**4) Cywiriadau/Diwygiadau i Wŷs y Cyngor**

**a) Eitem 13 "Ymateb i'r Ymgynghoriad - Cyd-bwyllgorau Corfforaethol**

Dosbarthwyd fersiwn ddiwygiedig o ymateb Ymgynghoriad y Cyd-bwyllgorau Corfforaethol. Mae'r paragraff mewn llythrennau italig isod wedi'i ychwanegu at ymateb 1b.

***1b) Ydych chi'n cytuno y dylai'r Cyd-bwyllgorau Corfforaethol gael yr un fframwaith llywodraethu a gweinyddol yn fras â phrif gyngor ar yr amod bod hyn yn gymesur? Rhowch eich rhesymau.***

Mewn egwyddor, ydw - mae'n ymddangos bod hyn yn briodol ar yr amod ei fod yn gymesur ac nad yw'n datblygu'n 'anghenfil' gweinyddol ar wahân dros amser. Bydd angen sicrhau bod gan y Cyd-bwyllgorau Corfforaethol adnoddau digonol a bydd angen Swyddog Monitro/Swyddog A151 unigol a staff gweinyddol ar bob Cyd-bwyllgor Corfforaethol, y mae angen i Lywodraeth Cymru eu cydnabod a'u cefnogi'n ariannol.

*"Mae'n bwysig bod y Cyd-bwyllgorau Corfforaethol yn destun yr un oruchwyliaeth graffu ac archwilio ag awdurdodau cyfansoddol. Er y dylai trefniadau craffu o'r fath fod yn ôl disgresiwn y Cyd-bwyllgorau Corfforaethol, mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo cost y ddarpariaeth graffu ychwanegol hon (gan gynnwys costau swyddogion craffu sy'n gweithio gyda'r Cyd-bwyllgorau Corfforaethol) er mwyn peidio ag effeithio ar allu ac adnoddau swyddogion i gyflawni dyletswyddau craffu o ddydd i ddydd ym mhob awdurdod cyfansoddol."*

Bydd Cyd-bwyllgorau Corfforaethol hefyd yn caniatáu cyfuno adnoddau neu rannu sgiliau ac arbenigedd penodol a gallai helpu i fynd i'r afael â rhai materion sy'n ymwneud â gallu.

**30. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.**

**1) Cymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cyhoeddus - Enwebiad ar gyfer Cyngor y Flwyddyn**

Cyhoeddodd Arweinydd y Cyngor fod Cyngor Abertawe wedi cael ei enwebu fel Cyngor y Flwyddyn yng Ngwobrau Cymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cyhoeddus.

**2) Technoleg Llanw - Ynys Ynni'r Ddraig**

Rhoddodd Arweinydd y Cyngor ddiweddariad mewn perthynas â photensial Technoleg Llanw ym Mae Abertawe fel rhan o gynllun Ynys Ynni'r Ddraig.

**3) Diogelu Swyddi yn Abertawe**

Mynegodd Arweinydd y Cyngor ei bryder ynghylch tranc rhai o brif siopau'r DU. Dywedodd fod y cyngor yn gwneud popeth posib i ddiogelu swyddi yn Abertawe.

**4) Brechlyn COVID-19**

Dywedodd Arweinydd y Cyngor y byddai'r brechlyn Pfizer/BioNTech yn cael ei gyflwyno yn y diwrnodau nesaf.

**5) Abertawe – Dinas â digon o ddiffibrilwyr**

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod y cyngor yn cydweithio â'r elusen leol, Heartbeat Trust UK, er mwyn gosod hyd at 200 o ddiffibrilwyr a all achub bywydau. Y nod yw achub bywydau a bod Abertawe'n ennill teitl y ddinas gyntaf â digon o ddiffibrilwyr yn y DU.

## 31. Cwestiynau gan y Cyhoedd.

Derbyniwyd dau gwestiwn gan y cyhoedd. Roedd un gan John Childs mewn perthynas â Chofnod 33 "Y Diweddaraf gan y Gronfa Bensiwn ar Newid yn yr Hinsawdd" a'r llall gan Rebecca Evans (Aelod o'r Senedd) mewn perthynas â Chofnod 41 "Cwestiynau'r Cynghorwyr - Cwestiwn "Ffyrdd Ariannol o ddiogelu masnachu y tu allan yn ddiogel".

Ymatebwyd i'r cwestiynau gan Aelodau perthnasol y Cabinet.

## 32. Cyfrifo Sylfaen Treth y Cyngor - 2021/2022

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth adroddiad a oedd yn manylu ar gyfrifo sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer Dinas a Sir Abertawe, ei Gynghorau Cymuned/Tref ac Awdurdod Iechyd Porthladd Bae Abertawe ar gyfer 2021-2022. Mae'n ofynnol i'r cyngor bennu Sylfeini Treth y Cyngor erbyn 31 Rhagfyr 2020.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Cymeradwyo'r Sylfeini Treth y Cyngor ar gyfer 2021-2022;

2) Yn unol â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth y Cyngor) (Cymru), fel y'u diwygiwyd, mae Dinas a Sir Abertawe wedi cyfrifo'r canlynol ar gyfer y flwyddyn 2021-2022:

| | |
|---|---|
| **Ar gyfer yr ardal gyfan** | 94,051 |
| **Ar gyfer ardaloedd cynghorau cymuned/tref:** | |
| Llandeilo Ferwallt | 2,064 |
| Clydach | 2,676 |
| Gorseinon | 3,319 |
| Tre-gŵyr | 1,992 |
| Pengelli a Waungron | 420 |
| Llanilltud Gŵyr | 364 |
| Cilâ | 2,151 |
| Llangynydd, Llanmadog a Cheriton | 536 |
| Llangyfelach | 971 |
| Llanrhidian Uchaf | 1,640 |
| Llanrhidian Isaf | 338 |
| Casllwchwr | 3,508 |
| Mawr | 768 |
| Y Mwmbwls | 10,349 |
| Penllergaer | 1,451 |
| Pennard | 1,518 |
| Penrhys | 479 |
| Pontarddulais | 2,348 |
| Pontlliw a Thircoed | 1,039 |
| Porth Einon | 484 |
| Reynoldston | 335 |
| Rhosili | 208 |
| Y Crwys | 713 |
| Cilâ Uchaf | 583 |
| **Ar gyfer ardal Awdurdod Iechyd Porthladd Bae Abertawe** | 65,722 |

## 33. Diweddariad ar y Gronfa Bensiwn a Newid yn yr Hinsawdd.

Cyflwynodd Cadeirydd Pwyllgor y Gronfa Bensiwn adroddiad ar sut mae'r gronfa bensiwn yn mynd rhagddi ar ei hymrwymiad i leihau ôl-troed carbon ei phortffolio ecwiti rhestredig 50% erbyn 2022 a mentrau eraill i fynd i'r afael â risg newid yn yr hinsawdd.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Nodi a chymeradwyo'r camau gweithredu a'r cynnydd a nodwyd ym Mharagraff 12 yr adroddiad y mae'r Gronfa Bensiwn wedi'u gwneud o ran

bodloni ei hymrwymiad i leihau ei hamlygiad carbon yn ei buddsoddiadau ecwiti rhestredig 50% erbyn 2022.

## 34. Datganiad Argyfwng Hinsawdd - Adolygiad Polisi a'r Cynllun Gweithredu Arfaethedig.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gartrefi, Ynni a Thrawsnewid Gwasanaethau adroddiad er gwybodaeth a gyflwynodd adolygiad polisi a'r camau gweithredu arfaethedig yn dilyn yr Hysbysiad o Gynnig ar Argyfwng Newid yn yr Hinsawdd a gyflwynwyd i'r cyngor ar 27 Mehefin 2019.

**Sylwer:** Gofynnodd y Cynghorydd E W Fitzgerald gwestiwn mewn perthynas â Pharagraff 2.1.21 (Cynllun Teithio Llesol) yr adroddiad. Gofynnodd a oedd ffigurau'n ymwneud â beicio, wedi'u dadansoddi rhwng defnyddwyr hamdden a chymudwyr?"

Dywedodd Aelod y Cabinet dros Wella'r Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd y byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu.

## 35. Penodi Aelod Lleyg Ychwanegol i'r Pwyllgor Archwilio.

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn ceisio ystyriaeth ar gyfer argymhelliad y Pwyllgor Penodiadau ar 17 Tachwedd 2020 i benodi aelod lleyg ychwanegol i'r Pwyllgor Archwilio.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Penodi Julie Davies yn aelod lleyg o'r Pwyllgor Archwilio gan ddechrau ar 4 Rhagfyr 2020.

2) Bydd ei chyfnod yn y swydd yn dod i ben ar 3 Rhagfyr 2025.

## 36. Penodiad Parhaol ar gyfer swydd Cyfarwyddwr Addysg Statudol

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad a oedd yn rhoi'r diweddaraf am y trefniadau sy'n ymwneud â'r Cyfarwyddwr Addysg.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Nodi cymeradwyaeth ymddeoliad afiechyd Nick Williams.

2) Nodi dechrau'r broses o recriwtio Cyfarwyddwr Addysg Statudol.

3) Estyn penodiad Helen Morgan-Rees yn Gyfarwyddwr Addysg Statudol Dros Dro hyd nes y bydd y swydd wedi'i llenwi'n barhaol.

## 37. Ymateb i Ymgynghoriad - Cyd-bwyllgorau Corfforaethol

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer ymateb y cyngor i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Gydbwyllgorau Corfforaethol fel y darperir gan Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru).

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Cyflwyno'r ymateb i'r ymgynghoriad, fel yr amlinellir yn Atodiad A i'r adroddiad, i Lywodraeth Cymru.

## 38. Newidiadau i'r Cyfansoddiad.

Cyflwynodd yr Aelod Llywyddol, y Swyddog Monitro a Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad ar y cyd a oedd yn ceisio gwneud diwygiadau er mwyn symleiddio, gwella a/neu ychwanegu at Gyfansoddiad y Cyngor.

Roedd y newidiadau arfaethedig yn ymwneud â'r meysydd canlynol o Gyfansoddiad y Cyngor:

a) Rhan 3 - Ymatebolrwydd ar gyfer Swyddogaethau - Cylch Gorchwyl - Pwyllgorau Datblygu Polisi (PDP).

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Ailenwi Pwyllgor Datblygu Polisi’r Economi ac Isadeiledd yn Bwyllgor Datblygu Polisi’r Economi, yr Amgylchedd ac Isadeiledd.

2) Ailenwi'r PDP Cydraddoldebau a Chenedlaethau'r Dyfodol yn, PDP Adfer a Chenedlaethau'r Dyfodol.

3) Bod Cylch Gorchwyl y PDP Adfer a Chenedlaethau'r Dyfodol fel yr amlinellir yn **Atodiad A** "Cylch Gorchwyl y Pwyllgorau Datblygu Polisi (PDP) - Newidiadau wedi'u hamlygu" yr adroddiad.

4) Gwneud unrhyw ddiwygiadau cyfansoddiadol canlyniadol.

## 39. Newidiadau i'r Cyfansoddiad.

Cyflwynodd yr Aelod Llywyddol, y Swyddog Monitro a Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad gwybodaeth ar y cyd a oedd yn nodi'r diwygiadau a wnaed gan y Swyddog Monitro i Gyfansoddiad y Cyngor yn dilyn y newidiadau rheoli a staffio mewn perthynas â Chyfarwyddiaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol.

## 40. Cwestiynau gan y Cynghorwyr.

### 1) ‘Cwestiynau Atodol’ Rhan A

Cyflwynwyd wyth (8) 'Cwestiwn Atodol' Rhan A. Ymatebodd Aelod(au) perthnasol y Cabinet ar ffurf atebion ysgrifenedig a gynhwyswyd yng Ngwŷs y Cyngor.

Dangosir y cwestiwn(cwestiynau) atodol hwnnw(hynny) yr oedd angen ymateb ysgrifenedig arno(arnynt) isod:

**Cwestiwn 5**

Gofynnodd y Cynghorydd A M Day gwestiwn:

*"Mae paragraff 2 o'r ymateb ysgrifenedig yn cyfeirio at adolygiad sydd ar ddod. Pryd fydd yr adolygiad yn cael ei gynnal ac a ellir rhannu canlyniad yr adolygiad â chynghorwyr?"*

Nododd y Aelod y Cabinet dros Gartrefi, Ynni a Thrawsnewid Gwasanaethau y byddai ymatebion ysgrifenedig yn cael eu darparu.

**2) 'Cwestiynau nad oes angen Cwestiynau Atodol ar eu cyfer' Rhan B**

Cyflwynwyd tri (3) 'chwestiwn nad oedd angen cwestiynau atodol' ar eu cyfer Rhan B.

**41. Rhybudd o Gynnig - Incwm Sylfaenol.**

Hysbysiad o Gynnig gan y Cynghorwyr M Sherwood, R C Stewart, A S Lewis, D H Hopkins, J P Curtice, M B Lewis, M C Child, D W W Thomas, S Pritchard, W G Lewis, L V Walton, R Francis-Davies, L S Gibbard, A Pugh a C R Evans

Cynigiwyd gan y Cynghorydd M Sherwood a'i eilio gan y Cynghorydd L Gibbard.

*"Mae'r cyngor hwn:*

*a) yn credu bod y system fudd-daliadau bresennol yn siomi dinasyddion ac yn achosi caledi i lawer o gymunedau yn Abertawe;*

*b) Yn nodi'r cysyniad o Incwm Sylfaenol Cyffredinol (UBI) lle telir swm nad yw'n destun prawf modd i ddinasyddion o'r wladwriaeth i dalu am gostau byw sylfaenol, a delir i bob dinesydd yn unigol, waeth beth fo'u statws cyflogaeth, cyfoeth neu statws priodasol;*

*c) Yn credu bod angen profi Incwm Sylfaenol Cyffredinol, gan fod gan Incwm Sylfaenol Cyffredinol y potensial i fynd i'r afael â heriau allweddol megis anghydraddoldeb, tlodi, cyflogaeth ansicr, a cholli cymuned drwy:*

*i) Roi gweithlu mwy hyblyg i gyflogwyr a rhoi mwy o ryddid i weithwyr newid eu swydd;*

*ii) Gwerthfawrogi gwaith di-dâl, megis gofalu am aelodau'r teulu a gwaith gwirfoddol;*

*iii) Dileu effeithiau negyddol cosbau budd-daliadau ac amodoldeb;*

*iv) Rhoi rhagor o adnoddau cyfartal i bobl yn y teulu, y gweithle a chymdeithas.*

*ch) Nodi gwaith UBI Lab Network wrth ddatblygu cynigion ar gyfer cynlluniau peilot i brofi Incwm Sylfaenol Cyffredinol;*

*d) Yn credu na ddylid mesur llwyddiant cynllun peilot Incwm Sylfaenol Cyffredinol yn ôl yr effaith ar y nifer sy'n manteisio ar waith cyflogedig, ond yr effaith ar gymunedau a'r hyn y mae'r bobl ynddynt yn ei wneud, sut mae nhw'n teimlo, a sut maen nhw'n cysylltu ag eraill a'r amgylchedd o'u cwmpas;*

*dd) Yn credu, o ystyried ei hanes o arloesi cymdeithasol, llu o arbenigedd, a rhwydweithiau gweithredol ar draws gwasanaethau cymunedol, busnes a gwasanaethau cyhoeddus, fod Abertawe yn ddelfrydol i dreialu Incwm Sylfaenol Cyffredinol;*

*e) Yn penderfynu gweithio gyda UBI Lab Network Abertawe a Chymru i ysgogi trafodaethau yn y ddinas a thu hwnt iddi ynghylch incwm sylfaenol;*

*f) Yn penderfynu anfon copi o'r cynnig hwn at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau, y Canghellor, arweinydd y blaid mewn Llywodraeth, eu cymheiriaid ym mhob un o'r gwrthbleidiau yn y Senedd, Prif Weinidog Cymru ac at holl Aelodau Seneddol Abertawe".*

**Penderfynwyd** mabwysiadu'r Hysbysiad o Gynnig a amlinellir uchod.

Daeth y cyfarfod I ben am 8.15 pm

**Cadeirydd**